

Yr hyn a wnawn i'r aelodau



Sut rydym yn gwneud hyn

Sut rydym yn gweithio

Ein proffesiwn

Mae cyfreithwyr yn chwarae rôl hanfodol yn helpu pobl i ddelio â heriau bywyd, o brynu tŷ neu ysgrifennu ewyllys i ymdopi yn dilyn cyhuddiad o gamwri.

Maent hefyd yn rhoi cyngor ar amrywiaeth o faterion, gan helpu busnesau bach a chorfforaethau rhyngwladol mawr drwy gynnig cyngor ar faterion busnes a materion cydymffurfio.

Mae'n ofynnol i gyfreithwyr gyrraedd safonau proffesiynol a moesegol uchel, meddu ar dystysgrif ymarfer ac yswiriant cynhwysfawr i ddiogelu eu cleientiaid. Maent yn ennill y teitl cyfreithiwr drwy ymroddiad penodedig i addysg, hyfforddiant a datblygiad cyfreithiol.

Cymdeithas y Cyfreithwyr

Rydym yn bodoli i gynrychioli, hyrwyddo a chefnogi pob cyfreithiwr, fel y gallant yn eu tro helpu eu cleientiaid neu roi cyngor i'w sefydliadau. Rydym hefyd yn gweithio i ddiogelu hawl pawb i gael mynediad at gyfiawnder.

Rydym yn helpu'r aelodau drwy:

- gynrychioli cyfreithwyr drwy siarad dros gyfiawnder ac ar faterion cyfreithiol
- hyrwyddo cyfreithwyr drwy hysbysebu gwerth defnyddio cyfreithiwr gartref a thramor
- cefnogi cyfreithwyr drwy eu helpu i ddatblygu eu harbenigedd a'u busnes, waeth p'un a ydynt yn gweithio drostynt eu hunain, yn fewnol neu i gwmni cyfreithiol



Rydym yn cynrychioli ein proffesiwn drwy:

- ymgyrchu dros reol y gyfraith, hawliau dynol, mynediad at gyfiawnder a rheoleiddio. Mae hyn yn cynnwys dylanwadu yn San Steffan, Caerdydd a Brwsel ac yn y cyfryngau
- gweithio gyda chyrrff cyfreithiol rhyngwladol i sefydlu Cymdeithas y Cyfreithwyr fel arweinydd-meddwl ar faterion cyfreithiol byd-eang
- ymyrryd mewn achosion lle mae cyfreithwyr a'r gyfraith dan fygythiad yn y DU a thramor
- helpu ein haelodau i gyflwyno materion allweddol sy'n effeithio ar y proffesiwn i'w AS, AC neu ASE
- defnyddio'r gyfraith i herio newidiadau a fydd yn effeithio'n negyddol ar y proffesiwn a chymdeithas
- hyrwyddo a hwyluso gwaith pro bono



Rydym yn hyrwyddo ein proffesiwn drwy:

- gweithio'n rhyngwladol i agor a thyfu marchnadoedd ar gyfer cyfraith Cymru a Lloegr megis ymweliadau mewnol gan gyfreithwyr tramor a theithiau masnach
- darparu a chynyddu ymwybyddiaeth o Find a Solicitor - ein gwefan sy'n galluogi defnyddwyr a busnesau i ddod o hyd i gyfreithiwr a all ddiwallu eu hanghenion
- cynnal ein Gwobrau Rhagoriaeth blynyddol sy'n amlygu a dathlu cyfraniadau eithriadol ar draws y proffesiwn
- cydnabod y cyfraniad y mae cyfreithwyr yn ei wneud at gymdeithas sifil a chymunedau
- hyrwyddo gwerth gwasanaethau cyfreithiol i economi'r DU.



Rydym yn cefnogi ein proffesiwn drwy:

- nodi materion a thueddiadau'r farchnad sy'n effeithio ar gyfreithwyr er mwyn eu helpu i baratoi ar gyfer y dyfodol
- datblygu cynnig addysg a hyfforddiant cynhwysfawr a chydlynol
- darparu nodiadau ymarfer a chanllawiau ar faterion sy'n bwysig i'r aelodau
- rhoi cyngor trwy ein llyfrgell a llinellau cymorth

- rhedeg cynlluniau achredu i gefnogi a dangos ymarfer effeithiol
- creu cymunedau o aelodau yn seiliedig ar bwy ydych chi a beth rydych yn ei wneud
- cefnogi'r rheini sy'n cael trafferth dechrau yn y proffesiwn trwy ein Cynllun Mynediad Amrywiaeth
- cynnig gwasanaethau ymgynghori i aelodau sydd am gael cymorth mwy manwl
- helpu'r aelodau sydd am ymarfer dramor

Rydym yn defnyddio gwybodaeth aelodau ein Cyngor a thua 300 o aelodau byrddau a phwyllgorau sydd wedi'u hethol a'u penodi. Mae hyn yn ein galluogi i adlewyrchu profffil y proffesiwn, a'r boblogaeth y mae cyfreithwyr yn ei gwasanaethu. Mae eu hymroddiad yn ein helpu i ddarparu'r cyngor, cymorth a'r gwasanaethau y mae ein haelodau eu heisiau. Mae ein pwyllgorau arbenigol yn defnyddio eu gwybodaeth a'u profiad manwl o feysydd penodol o'r gyfraith i gefnogi ymarfer aelodau a helpu i lunio pa safiad y dylai Cymdeithas y Cyfreithwyr ei gymryd ar amrywiaeth eang o faterion.

Mae cyfreithwyr a'u cwmnïau yn talu eu ffioedd blynyddol i'r Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr. Mae'r ffioedd hyn yn ariannu cost rheoleiddio (Yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr, y Tribiwnlys Disgyblu Cyfreithwyr, y Bwrdd Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Ombwdsmon Cyfreithiol).

Mae'r ffioedd blynyddol hyn hefyd yn ariannu llawer o waith Cymdeithas y Cyfreithwyr i gynrychioli, hyrwyddo a chefnogi'r proffesiwn sy'n ymddangos yn y daflen hon. Mae gweithgareddau masnachol yn cynhyrchu tua 30% o'n hincwm blynyddol, gan helpu i ariannu'r gwaith hwn.

Y gost i'n haelodau unigol am ein holl waith cynrychioliadol a budd y cyhoedd yw tua £2 yr wythnos. Mae cwmnïau yn talu £3 yr wythnos ar gyfartaledd fesul cyfreithiwr.

Rhagor o wybodaeth

Gallwch ddysgu mwy am yr hyn rydym yn ei wneud yn ein hadroddiad blynyddol a Strategaeth 2015 - 2018 ar-lein yn www.lawsociety.org.uk/about-us/our-strategy

Beth rydym yn ei gynnig i chi

Fel rhan o'ch aelodaeth

Cynrychioli ein proffesiwn:

- llais yn San Steffan, Caerdydd, Brwsel ac yn rhyngwladol
- gweithio dros ddiwygio'r gyfraith er budd y cyhoedd a'r proffesiwn drwy ddylanwadu, ymateb i ymgynghoriadau a defnyddio ymglyfreitha strategol

Hyrwyddo cyfreithwyr:

gartref

- Find a Solicitor – cyfeiriadur ar-lein sydd â phroffiliau addasadwy sy'n eich helpu i adeiladu eich busnes
- fideos a deunyddiau o'n hymgyrch defnyddwyr i'ch hyrwyddo chi a'ch busnes

dramor

- hyrwyddo'r defnydd o gyfraith Cymru a Lloegr a Chymru a Lloegr fel dewis awdurdodaeth yn rhyngwladol
- agor marchnadoedd newydd ar gyfer cyfraith Cymru a Lloegr

Eich cefnogi chi a'ch tîm:

- Copïau print o Gazette Cymdeithas y Cyfreithwyr, e-bost dyddiol gyda diweddariadau ac ap Gazette
- My Law Society - eich cyfrif ar-lein i addasu'r wybodaeth rydych yn ei derbyn a gosod eich dewisiadau marchnata
- nodiadau ymarfer, adroddiadau ymchwil, newyddion ac e-gylchlythyrau
- cymunedau yn cynnig cymorth yn seiliedig ar bwy ydych chi
- hyfforddiant, addysg gyfreithiol a chymorth busnes trwy bodlediadau, gweminarau a fideos, sioeau teithiol a digwyddiadau DPP
- defnydd o'r llyfrgell a gwasanaethau llyfrgell - ar gael ledled Cymru a Lloegr
- Gwasanaethau Cyngor Ymarfer a llinellau cymorth eraill, gan gynnwys gofal bugeiliol

- adroddiadau ar y farchnad gyfreithiol er mwyn eich helpu i gynllunio ar gyfer y dyfodol
- helpu symudedd cymdeithasol gyda'n siarter amrywiaeth, cynllun mentora a chenhadon
- cyngor ar fodloni rhwymedigaethau busnes a hawliau dynol
- cymorth ar gyfer eich gweithgarwch pro bono

Am dâl ychwanegol

Hyrwyddo cyfreithwyr:

- achrediaid unigol a phractis i arddangos arfer gorau ac adeiladu busnes

Eich cefnogi chi:

- yswiriant indemnedd proffesiynol
- amrywiaeth eang o lyfrau o'n siop lyfrau ar-lein
- cyrsiau datblygiad proffesiynol gan gynnwys hyfforddiant ar-lein
- cymunedau yn cynnig cymorth perthnasol, wedi'i dargedu ar gyfer meysydd cyfreithiol arbenigol ac ar yr hyn rydych yn ei wneud
- gwasanaeth ac adnoddau cynghori ar Risg a Chydymffurfiaeth
- gwella prosesau busnes gyda'n ffurflenni enghreifftiol ac arfer gorau
- Lawyers For Your Business - cymorth cyfreithiol ar gyfer cwmnïau bach i ganolig
- digwyddiadau arbennig a chynadleddau

Gostyngiadau a buddiannau eraill

- gostyngiadau ar gynhyrchion a gwasanaethau gan bartneriaid Cymdeithas y Cyfreithwyr
- gostyngiad o 15% wrth logi ystafell gyfarfod
- lleoedd i wneud busnes a chwrdd â chleientiaid a chydweithwyr yn Llundain, ein Hystafell Ddarllen a'n Bwyty 113



Cymdeithas y Cyfreithwyr



Cynrychioli, Hyrwyddo a Cefnogi cyfreithwyr



@TheLawSociety



facebook.com/lawsocietyFAS



lawsociety.org.uk



020 7242 1222



113 Chancery Lane, London
WC2A 1PL